# Rhwng dau le

Nid cryndod dŵr yr afon yn unig y mae bardd yn gweld,
ond ôl y garreg a ysgogodd y crychdonni hefyd.

Neidio

Dwy law
yn cydio ar ddibyn
trothwy oes y be' bynnag fydd.

Plethu bysedd
yn wreiddiau dan dir,
gan fynnu'r hawl i sgwâr o goncrit
i'w daro â morthwyl
a chrogi arwydd o gartref
oddi arno.

Llygaid yn cwrdd,
amrantiad o hiraeth
dros ogla' hen hafau
o ddawnsio dan gawod haul
a chasglu sêr y bore bach
yn atgofion i'w rhannu dan gynfas.

Saib
a dwrn y gwynt yn glais ar foch
wrth sbio i berfedd yr afon.

Yna neidio.

## Symud

Mae'r oriau'n oedi rhyw fymryn,
yn llusgo'u traed rhag rhigol dydd,
a minnau yn eu canol nhw
yn pacio 'myd rhwng bys a bawd
a synnu mor wag yw bocsys llawn

am fod y gerdd dal ar ei hanner, am wn i –
sut mae bardd yn proffesu'r hen deimladau
os yw'n gwegian rhwng dau le
fel hanner atgof?

Gair llithrig 'di adra erbyn hyn –
ai am 'mod i 'di angori
mewn gormod o lefydd ar unwaith,
neu mewn nunlle o gwbl?

# Gwag

Felly dyma fi: bardd yn dychwelyd
at ddalen wen wag,
er bod yr ysfa i lenwi
ein amlen o oedolaeth
â mwy na charreg ateb
rhwng dau
bellach y tu hwnt i afael iaith,
yn rhedeg gyda llif afon
yn ddiarwybod o'i chwrs,

ac mae 'na ogla' cadw
ar y cynganeddion hyn,
cwlwm o lawysgrifen,
y berfau'n grychau i gyd
a'r darluniau'n hogian yn gam ar wal,
yn rhy swil rhag llenwi'r
gwacter yn llawn.

# Llenwi

Hei. Ti'n iawn?

Ti'n meindio os ydan ni
heno, am un noson,
yn dodi ein problemau i gyd ar silff,
cymryd brwsh at friwsion
ein swsys hanner meddwl
a hogi cyllell pŵl
ein sgyrsiau mân,

a heno, am un noson,
yn lle tynnu mwy o esgyrn bywyd
allan o focsys gwythiennau tap selo,
yn lle colli cwsg dros reoli
llanw ein llencyndod mewn afon o fyd,

gawn ni hel llwch oes ynghyd,
ei gydio ynddo,
a'i chwythu ymaith
i ddawnsio ar gyffro'r awel?

Dychwelyd

Mae'r waliau dan haen o baent gwyn
bellach.

Ffarwél ti'r hen fagnolia –
lliw cuddio clais mwg
a thiwmor lleithder,
lliw gwair gwyw
dan hoel adlen 'Steddfod,
lliw panad cyn tri
a defod hwyrol dau arall.

Mae'r pentyrrau dal yno,
olion byw a bod rhwng eiliad ac oes

ac oes, mae 'na rywbeth am y llanast
bellach,

yn ôl boliau llawn a chynfasau clyd,
ôl dwy law yn cyd-fyw a chyd-greu,
ôl afon yn dod o hyd i'w chwrs
ac yn llifo'n rhydd tua'r môr agored.